# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

## *11/11/24*

**Presennol:** Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd)

Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb gan yr is- Cadeirydd a derbyniwyd adroddiad o gyfarfod y gymuned gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri a'r Heddlu ar 15/10/24. Roedd y Clerc eisoes wedi ysgrifennu at y Swyddogion i ddiolch iddynt am eu hymdrechion i gadw'r ffordd ar agor a lleihau ymddygiad annerbyniol wrth y llyn ar ddiwrnodau prysur. Mae'r Clirffordd eisoes mewn grym ac os bydd cerbydau yn parcio ar hyd ffordd Llangywer gall y byddant yn cael eu llusgo oddi yno. Mae meysydd parcio o gwmpas y llyn i gyd yn mynd i ddod oddi mewn i gynlluniau peilot gwahanol, megis arwyddion i ddynodi bod y maes parcio'n llawn, system monitro ANPR (gyda goddefgarwch i bobl leol), mwy o sylw gan yr Heddlu, arwyddion newydd a chau'r meysydd parcio dros nos. Mae'r Cyngor a'r Gymuned yn hynod ddiolchgar bod eu pryderon yn cael gwrandawiad teg.

2. **Ymddiheuriadau:** Clwyd Davies

3. **Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

4. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

5. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Medi 9fed 2024

6. **Materion y Clerc:** Adroddodd y Clerc ei bod yn barod i barhau yn y swydd ar hyn o bryd. Llongyfarchwyd Huw Antur am gael ei ddewis fel Clerc newydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn.

7. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans. Dywedodd ei fod wedi trafod gosod arwyddion eir yn cael eu llusgo ar yr arwyddion Clirffordd gyda Andrew Gregson (Cyngor Gwynedd ). Gan wardeiniaid parcio Cyngor Gwynedd fydd yr hawl i roi tocynnau parcio ac mae'r Cynghorydd yn trafod y rota ymweld gyda'r Swyddfa. Bydd cyfarfod yn Chwefror ar gyfer pawb sy'n ymwneud a'r gwaith i roi'r trefniadau yn eu lle ac i sicrhau lori llusgo. Bydd y trefniadau yn cael eu treialu yn ystod Gŵyl y Banc cyntaf y tymor ymwelwyr.

   Adroddodd fod ffordd Cwm y Glyn yn cael ei hasesu bob 6 mis ac nid oes awgrym ar hyn o bryd fod y ffordd yn llithro.

   Diolchwyd yn gynnes i'r Cynghorydd am ei waith dros yr ardal.

8. **Materion lleol** y Cynghorwyr: Tynnwyd sylw at yr angen i rybuddio gyrwyr o ardal y Berwyn fod 40mya yn fuan, er mwyn iddynt allu cychwyn arafu cyn cyrraedd y 40mya. Dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans y byddai'n mynd a'r neges at Adran y Priffyrdd.

9. **Materion ariannol:** Derbyniwyd gwybodaeth manwl am y sefyllfa ariannol bresennol a rhagolwg o beth fyddai'r sefyllfa erbyn diwedd mis Mawrth. Adroddwyd y derbyniwyd gyda diolch £500 gan Gronfa Cymunedol Parc Cenedlaethol Eryri tuag at greu'r llwybr yn y fynwent. Nodwyd eto diolch am gyfraniad Gwersyll Carafanau Panntyronnen i gronfa'r Neuadd tuag at gynnal a chadw'r di-ffibs. Mae'r gymuned yn hynod ddiolchgar o'r casgliad yma gan y gwersyllwyr bob blwyddyn trwy law'r perchnogion. Talwyd am dorri gwair yn y fynwent, a rhoddwyd yr hawl i'r Clerc dalu am gynnal y wefan a thorri gwrych y fynwent pan ddaw'r anfonebau i law.

   Derbyniwyd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru mai'r swm priodol at ddibenion adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yw £11.10

   Daeth model newydd Un Llais Cymru o'r Rheoliadau Ariannol i law ac mae'r Clerc yn eu cymhwyso ar gyfer Cyngor Cymuned Llangywer.

10. **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd Adroddiad y cynrychiolwyr a soniodd am welliannau sydd i'w gwneud i Ganolfan Henblas. Mae'r ganolfan yn hynod brysur ac roedd yn anrhydedd i groesawu Comisiynydd Pobl Hŷn yno i'w chyfarfod cyntaf yn ei swydd newydd.

11. **Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau cynllunio.

12. **Gohebiaeth:** Ystyriwyd:

    i. **Cyngor Cymuned Llanystumdwy:** cytunwyd i'w cais i gefnogi Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg
    ii. **Triathlon** Llythyr o ddiolch gan y trefnwyr y a gwahoddiad i roi adborth (fydd yr un nesaf ar 7/9/2025). Ni fu trafferthion teithio o gwbl ar hyd y ffordd.
    iii. **Cais i** gefnogi atal gwerthu Plas Tanybwlch er mwyn i'r gymuned leol roi ystyriaeth i'r mater – roedd y mater wedi ei drafod a'i benderfynu gan Barc Cenedlaethol Eryri erbyn hyn.
    iv. Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y ffordd yn ardal gorsaf Penybont a'r Clwb Hwylio ar gau ar 29/1/25 a 30/1/25 er mwyn i Openreach newid ceblau.
    v. Un Llais Cymru: Dyddiadau hyfforddiant

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13/1/25 – Bydd hwn yn gyfarfod Cyllid a gosod y Praesept hefyd

*Amser gorffen: 8.45pm*